**Manon Antoniazzi**
Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd
Chief Executive and Clerk of the Senedd

23 Medi 2024

Mark Isherwood AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus
Senedd Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1SN

Annwyl Mark

**Adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus ar Graffu ar Gyfrifon 2022-23**

**Y wybodaeth ddiweddaraf am argymhellion**

Ysgrifennaf atoch i roi diweddariadau pellach ichi fel y cytunwyd yn ein llythyr dyddiedig 29 Ionawr 2024. Mae'n bleser gennyf atodi ymateb i'r argymhellion a ganlyn yn yr Atodiad i'r llythyr hwn.

> **Argymhelliad 1.** Dylai'r Comisiwn sicrhau bod gan y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd o ran gweithredu prosiectau fel rhan o'r Strategaeth Carbon Niwtral cyn i'r Pwyllgor graffu ar Gyfrifon y flwyddyn ariannol nesaf, gan gynnwys gwariant fesul prosiect, y cynnydd hyd y pwynt hwnnw ac arwydd o unrhyw orwariant neu danwariant.

> **Argymhelliad 4.** Dylai'r Comisiwn roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am waith y grwpiau sy'n edrych ar rôl Deallusrwydd Artiffisial yn y Senedd cyn i'r Pwyllgor graffu ar y Cyfrifon ar gyfer 2023-24.

> **Argymhelliad 5.** Yn y dyfodol dylai'r Comisiwn ystyried rhoi cynlluniau recriwtio ar waith, fel rhan o'i Gynllun Gweithlu, er mwyn annog ceisiadau gan unigolion o amrywiaeth o gefndiroedd cymdeithasol-economaidd a daearyddol, a hynny er mwyn sicrhau bod y Senedd yn adlewrchu'n well y wlad y mae'n ei chynrychioli. Byddai'r Pwyllgor yn gwerthfawrogi cael y wybodaeth ddiweddaraf am sut y gellid gweithredu hyn ac unrhyw dargedau sydd gan y sefydliad ar gyfer mynd i'r afael â'r anghydbwysedd presennol

Rhoddir sylw hefyd i argymhellion eich Pwyllgor ynghylch darparu diweddariadau ar y gronfa brosiectau a chyflenwyr o Gymru yn yr Atodiad sydd ynghlwm.

Mae'r Comisiwn bob amser yn ceisio gweithredu mewn ffordd agored, dryloyw a chlir. Fel bob amser, os hoffai eich Pwyllgor gael unrhyw wybodaeth bellach, mae croeso ichi gysylltu â mi.

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
Contact@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
Contact@senedd.wales
0300 200 6565

Yn gywir

**Manon Antoniazzi**
**Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd / Chief Executive and Clerk of the Senedd**

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg. We welcome correspondence in Welsh or English.

## Atodiad

### Argymhelliad 1.

**Dylai'r Comisiwn sicrhau bod gan y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd o ran gweithredu prosiectau fel rhan o'r Strategaeth Carbon Niwtral cyn i'r Pwyllgor graffu ar Gyfrifon y flwyddyn ariannol nesaf, gan gynnwys gwariant fesul prosiect, y cynnydd hyd y pwynt hwnnw ac arwydd o unrhyw orwariant neu danwariant.**

**Diweddariad**

Mae'r Comisiwn yn darparu gwybodaeth fel rhan o adroddiadau rheolaidd y Comisiwn a'i ddiweddariadau ar ei fentrau arbed ynni a chynnydd gyda'r strategaeth garbon niwtral, yn yr Adroddiad Blynyddol ar Gynaliadwyedd ac a grynhoir yn Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y Comisiwn, a gyhoeddir ar wefan y Senedd yn y lincs isod.

Nid yw'r Comisiwn wedi gwneud gwaith cyfalaf sylweddol fel rhan o'r Strategaeth Carbon Niwtral yn ystod y flwyddyn ddiwethaf oherwydd yr adnoddau cyfyngedig sydd ar gael. Fodd bynnag, mae gwaith wedi mynd rhagddo'n dda gyda phrosiect Rhwydwaith Gwres Caerdydd, gan gynnwys gosod y rhan fwyaf o'r offer sydd ei angen ar ystad y Senedd i'w weithredu'n effeithiol. Mae'r cysylltiad a'r offer cysylltiedig yn cael eu darparu gan Gyngor Caerdydd; cyllid grant y Cyngor ar gyfer gosodiadau mewn adeiladau cleientiaid angori.

**Adroddiad Blynyddol ar Gynaliadwyedd**

**Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon y Comisiwn**

### Argymhelliad 4.

**Dylai'r Comisiwn roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am waith y grwpiau sy'n edrych ar rôl Deallusrwydd Artiffisial yn y Senedd cyn i'r Pwyllgor graffu ar y Cyfrifon ar gyfer 2023-24.**

**Diweddariad**

Dros y 18 mis diwethaf, mae Comisiwn y Senedd wedi bod yn ystyried sut y gellir defnyddio adnoddau Deallusrwydd Artiffisial cynhyrchiol i gynorthwyo gwaith seneddol a sut i fanteisio ar y cyfleoedd a lliniaru'r risgiau sy'n deillio o ddefnyddio'r technolegau hyn.

Fel senedd gymharol ifanc sy'n cael ei gyrru'n ddigidol, rydym yn awyddus i fod ar flaen y gad o ran datblygiadau, gan archwilio adnoddau Deallusrwydd Artiffisial o fewn amgylchedd presennol

Microsoft. Rydym wedi cyfarfod â grwpiau plaid i rannu ein gwaith ac rydym yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda grŵp llai o Aelodau i sicrhau bod eu safbwyntiau a'u syniadau yn rhan ganolog o'n gwaith cynllunio.

**Llywodraethu**

Mae dau weithgor (Grŵp Llywodraethu Deallusrwydd Artiffisial a Grŵp Cyfleoedd Deallusrwydd Artiffisial) wedi'u sefydlu i fabwysiadu dull ystyriol, cyfrifol o ddefnyddio'r dechnoleg, gan gydnabod y manteision posibl o ran gwella effeithlonrwydd a chynhyrchiant, a galluogi gallu a mewnwelediadau newydd. Rydym hefyd yn cydnabod y risgiau sylweddol sy'n ymwneud â hawlfraint, rhagfarn, preifatrwydd, ystyriaethau moesegol, risgiau diogelwch, twyllwybodaeth a diffyg tryloywder ymhlith eraill.

Mae cynnig wedi'i gytuno sy'n awgrymu y dylid ystyried y risg hon yn Risg Gorfforaethol. Mae Polisi Deallusrwydd Artiffisial hefyd wedi'i ddatblygu, sy'n rhoi canllawiau ar ddefnyddio'r dechnoleg yn ddiogel ac yn briodol.

**Galluogi defnydd diogel o Ddeallusrwydd Artiffisial yn y Senedd**

Mae Microsoft ar flaen y gad o ran datblygu cymwysiadau Deallusrwydd Artiffisial cynhyrchiol. O ystyried ein bod yn defnyddio meddalwedd Microsoft yn bennaf i gefnogi ein gwaith, roedd yn gam cyntaf amlwg i ystyried a allai eu hadnoddau Deallusrwydd Artiffisial cynhyrchiol ein cynorthwyo a sut.

Mae Microsoft yn cynnig ystod o gymwysiadau Deallusrwydd Artiffisial cynhyrchiol ac rydym yn asesu manteision tri o'r cymwysiadau hyn; Microsoft Copilot (efallai y byddwch yn clywed pobl yn cyfeirio ato gan ei enw blaenorol, Bing Chat Enterprise neu Copilot for Bing), Copilot for Microsoft 365 (M365) a Microsoft Teams Premium.

**Microsoft Copilot (Bing Chat Enterprise yn ffurfiol)**

Mae Copilot for Bing yn darparu atebion ar ffurf traethawd i'r cwestiynau (awgrymiadau) y mae'r defnyddiwr yn eu cyflwyno ac yn defnyddio rhyngwyneb tebyg i chwiliad Google (gweler isod). Gall defnyddwyr ddefnyddio Copilot i gynhyrchu cynnwys, dadansoddi neu gymharu data, crynhoi dogfennau, dysgu sgiliau newydd, ysgrifennu cod, a llawer mwy.

Cafodd pob defnyddiwr system ar draws y Senedd fynediad at Copilot ar 22 Mawrth 2024. Mae deunyddiau hyfforddi a chanllawiau ar gyfer defnydd priodol o'r system wedi'u cyhoeddi ar safleoedd mewnrwyd yr Aelodau a'r Staff.

**Copilot for Microsoft 365 a Teams Premium**

Nid yw'r naill na'r llall o'r cynhyrchion hyn wedi'u cynnwys yn ein cytundeb trwydded cyfredol gyda Microsoft. Felly, bydd y ddau yn gofyn inni fynd i gost ychwanegol.

Ym mis Ebrill 2024 cymeradwyodd y Bwrdd Gweithredol gyllid ar gyfer treial o Copilot for Microsoft 365 a Teams Premium. Bydd y treial hwn yn darparu dadansoddiad o effaith bosibl y cyfarpar ar gynhyrchiant, cydweithredu ac effeithlonrwydd.

Bydd y cyllid yn caniatáu inni ddarparu nifer fach o bob trwydded i feysydd gwasanaeth er mwyn profi’r nodweddion, a phenderfynu a ddylai’r Senedd fabwysiadu’r cynhyrchion hyn.

Rydym yn profi'r ddau gynnyrch gan fod rhai (ond nid pob un) o'r nodweddion sydd ar gael drwy Copilot for 365 hefyd ar gael yn Teams Premium. Os mai dim ond nodweddion Teams Premium sydd eu hangen ar ddefnyddwyr, byddai hyn yn lleihau'r costau trwyddedu cyffredinol.

Mae tîm y prosiect wrthi’n cynnal profion technegol trwyadl o'r feddalwedd i sicrhau ei bod yn gweithredu'n gywir ac yn bodloni gofynion cydymffurfio a diogelwch.

Rydym hefyd yn ceisio enwebiadau gan Benaethiaid Gwasanaeth i gymryd rhan yn y treial sy'n dechrau ym mis Medi.

### Argymhelliad 5

**Yn y dyfodol dylai’r Comisiwn ystyried rhoi cynlluniau recriwtio ar waith, fel rhan o’i Gynllun Gweithlu, er mwyn annog ceisiadau gan unigolion o amrywiaeth o gefndiroedd cymdeithasol-economaidd a daearyddol, a hynny er mwyn sicrhau bod y Senedd yn adlewyrchu’n well y wlad y mae’n ei chynrychioli. Byddai'r Pwyllgor yn gwerthfawrogi cael y wybodaeth ddiweddaraf am sut y gellid gweithredu hyn ac unrhyw dargedau sydd gan y sefydliad ar gyfer mynd i'r afael â'r anghydbwysedd presennol.**

### Diweddariad

Yn dilyn ein hymateb i’r argymhelliad a ddarparwyd ym mis Ionawr, ac yn unol â’r Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant a’r Fframwaith Adnoddau Tymor Canolig, dechreuodd y Comisiwn (ym mis Medi) recriwtio ar gyfer trydydd cynllun Ymlaen y Comisiwn (ein hinterniaeth ar gyfer graddedigion ethnig leiafrifol). Mae’r cynllun wedi bod yn llwyddiannus o ran gwella nifer y bobl sy’n ymgeisio am rolau yn y Comisiwn, y cyfraddau trosi a niferoedd y staff o gefndiroedd du ac ethnig leiafrifol. Bydd y Comisiwn yn adeiladu ar ei lwyddiant, gyda golwg ar newid cwmpas yr interniaeth nesaf er mwyn canolbwyntio ar gynnig cyfleoedd o’r fath i bobl o gefndiroedd cymdeithasol-economaidd is.

Mae’r Comisiwn yn cydnabod bod sicrhau symudedd cymdeithasol yn gofyn am ymdrech barhaus a dull gweithredu rhagweithiol o fynd i’r afael â’r rhwystrau y gall unigolion o gefndiroedd cymdeithasol-economaidd amrywiol eu hwynebu. Gan hynny, gyda chefnogaeth y rhwydwaith cydraddoldeb yn y gweithle newydd i’r aelodau hynny o staff o gefndiroedd cymdeithasol-economaidd is (RISE), byddwn yn parhau i wella cyfranogiad o ran datgelu cefndir cymdeithasol-economaidd er mwyn deall ein gweithlu’n well a theilwra ein cynlluniau yn unol â hynny; gweithredu strategaethau recriwtio mwy cynhwysol i ddenu a chefnogi ymgeiswyr o gefndiroedd cymdeithasol-economaidd nad ydynt yn cael eu cynrychioli’n ddigonol; a darparu rhaglenni datblygu gyrfa a

mentora wedi'u targedu er mwyn sicrhau bod pob aelod o staff yn cael cyfleoedd cyfartal i dyfu a symud yn eu blaen.

Mae'r Comisiwn yn ddibynnol ar gael setiau data llawnach, yn arbennig wrth i staff presennol ddatgelu eu statws economaidd-gymdeithasol, ac mae ein Huwch-hyrwyddwr Symudedd Cymdeithasol wedi arwain y ffordd drwy rannu ei siwrnai bersonol mewn cyfres o flogiau i annog pobl i ddatgelu'r wybodaeth hon a thrwy hynny sicrhau bod gennym set ddata gyfoethocach.


## Contractau a ddyfarnwyd i gyflenwyr o Gymru

**Ymrwymodd y Comisiwn i ddarparu manylion am gontractau a ddyfarnwyd gan y Comisiwn i gyflenwyr o Gymru, yn flynyddol, a ddarperir yn ôl maint y contract yn y dyfodol, i gynnwys contractau hyd at £10,000, rhwng £10,000 a £50,000, rhwng £50,000 a £100,000 a mwy na £100,000.**

### Diweddariad


Mae pob contract sy'n fwy na £25,000 yn cael ei reoli'n ganolog gan dîm Caffael y Comisiwn. Mae rheoli contractau o dan £25,000 yn cael ei ddirprwyo i Feysydd Gwasanaeth. Mae'r Comisiwn yn ymchwilio'n barhaus i ffyrdd o gynyddu gwariant gyda chyflenwyr o Gymru. Gwnawn hyn drwy waith ymchwil marchnad ac ymgysylltiad cynnar â chyflenwyr. Mae'r Comisiwn yn monitro perfformiad gwariant Cymru drwy Ddangosydd Perfformiad Allweddol – mae'r perfformiad presennol yn Chwarter 1 2024-25 yn 49 y cant – trafodir manylion y blynyddoedd ariannol blaenorol isod.

<u>Gwariant gyda chyflenwyr o Gymru</u>
Gostyngodd gwariant gyda chyflenwyr yng Nghymru o 47 y cant ar ddiwedd 2022/23 i 44 y cant ar ddiwedd 2023/24. Roedd hyn yn rhannol oherwydd rhai contractau untro, sef Archifo Digidol lle gwnaethom wario £125,000 drwy ein contractwr darlledu Bow Tie, ac ar y prosiect Adnoddau Dynol/Y Gyflogres gyda Midland HR lle rydym wedi gwario £110,000 ar gostau sefydlu, (tra hefyd wedi talu Zellis am ein system bresennol ar gyfer Adnoddau Dynol/Y Gyflogres). Mae'r ddau gontract hyn yn cyfrif am 2.5 y cant o'n gwariant. Fodd bynnag, mae gwariant wedi codi'n ôl i 49 y cant ar ddiwedd Chwarter 1 eleni.




Ble rydym yn gwario ein harian

Yn 2023/24, gwnaethom wario tua £9.4 miliwn ar brynu nwyddau a gwasanaethau, gwariwyd 44 y cant o'r swm hwn yng Nghymru. Mae bron dau draean o’r gwariant hwn ar reoli cyfleusterau neu TGCh.




Gyda phwy rydym yn gwario ein harian

Yn 2023/24, dangosir isod ein prif gyflenwyr o ran gwariant. Y cyflenwr rydym yn gwario’r mwyaf gydag ef yw CBRE, ein contractwr rheoli cyfleusterau.

| Enw'r cyflenwr | Gwariant |
|---|---|
| CBRE (rheoli cyfleusterau) | £1,580,159 |
| Bowtie Television (darlledu) | £1,353,264 |
| EDF Energy | £1,002,317 |
| Softcat (TGCh) | £978,587 |
| Total Support Services (glanhau) | £498,560 |
| ESS Catering | £327,956 |
| Penna (chwiliad gweithredol) | £250,734 |
| Centerprise (TGCh) | £230,889 |
| Testun (gwasanaeth cyfieithu Cymraeg) | £153,854 |
| Digitalraid (TGCh) | £141,964 |

Yn 2023/24, trosglwyddwyd 45 y cant o'r gwariant gyda CBRE i is-gontractwyr o Gymru.

## Gwariant Cymru yn ôl categori

**Gwariant Cymru yn ôl categori - 2022/23**

| | Chwarter 1 | | Chwarter 2 | | Chwarter 3 | | Chwarter 4 | | Gwariant cronnol 2022/23 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Categori** | **Gwariant** | **Canran** | **Gwariant** | **Canran** | **Gwariant** | **Canran** | **Gwariant** | **Canran** | **Gwariant cronnol** | **Canran gronnol** |
| Darlledu | £88,000.00 | 4% | £89,250.00 | 4% | £94,500.00 | 5% | £93,600.00 | 3% | £365,350.00 | 4% |
| Arlwyo | £25,987.75 | 1% | £12,389.31 | 1% | £54,856.11 | 3% | £28,186.33 | 1% | £121,419.50 | 1% |
| Glanhau | £8,687.56 | 0% | £8,075.47 | 0% | £9,420.75 | 0% | £13,680.35 | 0% | £39,864.13 | 0% |
| Rheoli Cyfleusterau | £613,824.30 | 27% | £238,673.70 | 12% | £285,830.84 | 15% | £425,811.84 | 15% | £1,564,140.68 | 17% |
| Dodrefn | £25,347.00 | 1% | £38,891.94 | 2% | £14,733.30 | 1% | £26,190.00 | 1% | £105,162.24 | 1% |
| TGCh | £98,100.60 | 4% | £93,424.96 | 5% | £100,453.95 | 5% | £112,084.66 | 4% | £404,064.17 | 4% |
| Arall | £250,580.94 | 11% | £423,013.29 | 20% | £341,964.29 | 17% | £342,806.63 | 12% | £1,358,365.15 | 15% |
| Cyfieithu | £62,328.70 | 3% | £32,655.44 | 2% | £84,209.20 | 4% | £82,460.23 | 3% | £261,653.57 | 3% |
| **Cyfanswm y Gwariant Lleol** | £1,172,856.85 | 52% | £936,374.11 | 45% | £985,968.44 | 50% | £1,124,820.04 | 41% | £4,220,019.44 | 47% |
| **Cyfanswm y Gwariant** | £2,256,712.59 | | £2,073,204.22 | | £1,961,509.32 | | £2,774,073.48 | | £9,065,499.61 | |

Gwariant Cymru yn ôl categori - 2023/24

| | Chwarter 1 | | Chwarter 2 | | Chwarter 3 | | Chwarter 4 | | Gwariant cronnol 2022/23 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Categori | Gwariant | Canran | Gwariant | Canran | Gwariant | Canran | Gwariant | Canran | Gwariant cronnol | Canran gronnol |
| Darlledu | £92,600.00 | 5% | £87,050.00 | 4% | £109,250.00 | 7% | £96,600.00 | 3% | £385,500.00 | 4% |
| Arlwyo | £34,769.00 | 2% | £31,202.52 | 1% | £39,143.25 | 2% | £37,683.20 | 1% | £142,797.97 | 2% |
| Glanhau | £9,413.30 | 0% | £8,551.65 | 0% | £9,551.77 | 1% | £7,767.33 | 0% | £35,284.05 | 0% |
| Rheoli Cyfleusterau | £497,386.50 | 26% | £373,970.70 | 16% | £440,749.99 | 26% | £670,492.37 | 19% | £1,982,599.56 | 21% |
| Dodrefn | £5,691.60 | 0% | £14,960.74 | 1% | £777.60 | 0% | £8,401.20 | 0% | £29,831.14 | 0% |
| TGCh | £40,895.88 | 2% | £126,870.14 | 6% | £124,864.73 | 7% | £202,260.23 | 6% | £494,890.98 | 5% |
| Arall | £186,261.19 | 10% | £216,235.01 | 9% | £123,265.53 | 7% | £217,889.99 | 6% | £743,651.72 | 8% |
| Cyfieithu | £55,917.74 | 3% | £57,171.47 | 3% | £77,551.68 | 5% | £106,964.30 | 3% | £297,605.19 | 3% |
| **Cyfanswm y Gwariant Ll** | £922,935.21 | 48% | £916,012.23 | 40% | £925,154.55 | 55% | £1,348,058.62 | 38% | £4,112,160.61 | 44% |
| **Cyfanswm y Gwariant** | £1,903,730.65 | | £2,284,370.72 | | £1,667,011.89 | | £3,545,610.01 | | £9,400,723.27 | |

Gwasgariad contractau a ddyfarnwyd y llynedd yn ôl gwerth contract

| Gwerth y contract | Nifer y contractau | Contractau Cymru |
|---|---|---|
| >£100,000 | 18 | 8 |
| >£50,000 | 5 | 1 |
| >£10,000 | 43 | 18 |
| <£10,000 | 252 | 125 |

### Y gronfa brosiectau

**Hoffai'r Pwyllgor glywed gan y Comisiwn yn flynyddol gyda dadansoddiad o'r prosiectau a weithredwyd fel rhan o’r gronfa brosiectau a'r cyllid a ddyrannwyd i'r prosiectau unigol hyn. Dylid darparu'r wybodaeth hon cyn gwaith craffu blynyddol y Pwyllgor ar Gyfrifon y Comisiwn.**

### Diweddariad

Yn ystod 2023-24, penderfynodd y Comisiwn wneud taliad costau byw i’r staff i’w helpu yn ystod yr argyfwng ariannol anodd hwn. Er mwyn gallu fforddio hynny, fel rhan o gyfres o fesurau, ataliwyd gwariant ar brosiectau nad oeddent wedi dechrau ac nad oedd eu hamserlen yn gritigol. Ym mis Rhagfyr 2023, unwaith yr oedd y Bwrdd Gweithredol yn hyderus bod cronfeydd ar gael eto, gwnaed y penderfyniad i flaenoriaethu prosiectau seilwaith, megis disodli ac uwchraddio’r system teledu cylch cyfyng, ynghyd â phrosiectau gydag amserlen gritigol ar gyfer eu cyflawni, megis y system Adnoddau Dynol a’r Gyflogres.

Isod ceir rhestr a manylion am y gwariant ar gyfer y gronfa brosiectau ar gyfer 2023-24.

| Prosiect/Eitem | Cyllideb a neilltuwyd<br><br>£000 |
|---|---|
| PB2 - prawf o gysyniad CRM/OET | £24 |
| Trwyddedau Zoom | £2 |
| Adleoli swyddfa Gogledd Cymru | £56 |
| PB3 - Archifo | £125 |
| PB1 - Amnewid ac uwchraddio'r galedwedd teledu cylch cyfyng | £250 |
| PB1 - Ailosod drysau tân - cam 6 | £81 |
| PB1 - Amnewid polyn fflag | £37 |
| Bae 2032 - Achos Amlinellol Strategol | £62 |
| System Amgodiwr Darlledu (wal dân) | £8 |
| PB3 - CR1,2,3 – newid camerâu / gweledigaeth | £399 |
| PB1 - Adnewyddu gliniaduron - comisiwn | £84 |
| Adolygiad y Bwrdd Taliadau o Gyflogau a Graddfeydd | £7 |
| PB1 - Prosiect Pobl a Thaliadau | £72 |
| Gwaith teledu cylch cyfyng brys | £19 |
| Pŵer critigol ystafell reoli diogelwch | £20 |
| Darnau hanfodol ar gyfer dangosyddion sbarduno cyfyngiadau aer (ACB) foltedd isel | £37 |
| Amnewid UPS | £11 |
| Darnau hanfodol ar gyfer yr holl lifftiau ar ystad Bae Caerdydd | £22 |
| Adnewyddu ffonau yn yr ardaloedd cyffredin | £11 |
| Rhaglen cyfrifiaduron llechen newydd 24 i 25 | £19 |
| Amnewid caledwedd y bwrdd gwaith | £95 |
| Goleuadau swyddfa LED - Cam 5 | £41 |
| Nodwedd ychwanegol yr offeryn rheoli rhaglen | £5 |
| **Cyfanswm** | **£1,487** |